

## Rhan Dau: Cynllun Ffioedd a Mynediad

### Cynllun Ffioedd a Mynediad

Enw'r sefydliad	Grŵp Colegau NPTC
Hyd y cynllun ffioedd a mynediad	1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2027

#### Adran 1 - Lefelau ffioedd

##### Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu bennu lefel y ffi ym mhob lleoliad (Paragraffau arweiniad 85-92)

Lefel y ffi	Lleoliad y cwrs
Lefel IV £7500 Lefel V £7500	Codir tâl o £7500 yf ar gyfer 2025/26 a 2026/27 am yr holl gyrsiau AU amser llawn (naill ai HNC neu HND) ar yr holl gampysau, sydd o fewn terfyn yr uchafswm ffioedd.

##### Adran 1.2 - Cyfanswm lefel y ffioedd (Paragraffau arweiniad 98-101)

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol. Mae'r holl ffioedd yn aros heb eu newid ar gyfer 2025/26 a 2026/27 ac wedi'u pennu fel £7500 yf. Mae'r ffi addysgu wrth ddechrau yr un peth ag ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau ac ni chaiff ei godi dros gyfnod y cwrs. Bydd y cyfanswm ffioedd yn £7,500 ar gyfer HNC a £15,000 ar gyfer HND. Mae gwefan y Coleg yn cynnwys gwybodaeth fanwl am Ffioedd a Chefnogaeth Ariannol AU ochr yn ochr â'r Polisi Ffioedd, a'i amodau a thelerau, fel y gall myfyrwyr gael eglurhad o ran eu cyfrifoldebau a chyfanswm cost eu rhaglen. Mae hyn yn cydymffurfio â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a

Marchnadoedd ar gyfer darparwyr AU ac mae'r Coleg yn ceisio isafu costau ychwanegol ond caiff manylion unrhyw gostau ychwanegol eu cyhoeddi yn y prospectws ac mewn proffiliau rhaglenni unigol ar y wefan lle bo'n briodol. Mae tîm Derbyniadau'r Coleg yn cyfathrebu gwybodaeth am ffioedd a chyllid yn uniongyrchol i ymgeiswyr yn y cam cynnig. Mae'r Coleg yn cynnal nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth AU gan gynnwys sgysiau cyllid myfyrwyr ac yn darparu gwybodaeth glir ar gyfer rhieni a myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd, bwrsariaethau a'r gronfa galedi'n cael eu hysbysebu'n eang trwy ddigwyddiadau agored a thrwy gyhoeddiadau a gwybodaeth ar-lein.

Gall myfyrwyr ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd ar wefan Grŵp NPTC. Mae'r wybodaeth hon wedi'i lleoli o dan yr adran Addysg Uwch, Polisiâu, lle gallant gyrchu'r Polisi Ffioedd a'r Telerau ac Amodau. [Polisiâu AU - Grŵp Colegau NPTC](#)

Mae ein llythyr cynnig ffurfiol yn rhoi manylion y ffioedd addysgu sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen ac yn amlinellu unrhyw gynnydd posibl mewn ffioedd ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol. Rydym yn cyfathrebu taliadau ffioedd trwy gydol y cyfnod astudio.

## **Adran 2 - Partneriaeth â Myfyrwyr** (Paragraffau arweiniad 102-105)

Mae'r Coleg yn parhau i adeiladu ar ei enw da am ddarparu amgylchedd dysgu cefnogol i fyfyrwyr trwy ddsbarthiadau bach, gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a darlithwyr hawdd mynd atynt a chefnogol er mwyn cyflwyno profiad myfyriwr rhagorol. Mae'r Coleg yn ymfalchïo mewn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, ac atgyfnerthwyd hyn drwy gyflwyno dogfen hunanasesu ar y cyd a chyflwyniad myfyrwyr ysgrifenedig ar gyfer yr adolygiad QAA. Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu er mwyn caniatáu gwaith partneriaeth effeithiol a thros y blynyddoedd diwethaf, lansiodd y Coleg Gymuned Myfyrwyr NPTC ar Microsoft Teams i ddarparu ystod o wybodaeth i fyfyrwyr o ddiweddariadau ar draws y coleg i helpu gyda sgiliau digidol, cymorth i fyfyrwyr, cyfathrebiadau Undeb y Myfyrwyr a gwybodaeth llyfrgell. Roedd y ffrwd Teams yn boblogaidd, ond nododd adborth gan fyfyrwyr addysg uwch yn y Senedd nad oedd llawer o'r wybodaeth megis cymorth UCAS a thaliadau LCA yn berthnasol iddynt. Datblygwyd tîm Cymuned Myfyrwyr AU mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr ac fe'i lanswyd ym mis Medi 2021 gan gwmpasu ystod o bynciau sy'n parhau i fod yn boblogaidd iawn.

Mae gwaith partneriaeth â myfyrwyr wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac yn wir mae ymgysylltu â myfyrwyr wedi gwella ers y pandemig gan i fwy o fyfyrwyr fedru cymryd rhan yn rhithwir mewn cyfarfodydd yn hytrach na mynnu eu bod yn teithio ar draws campysau i fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gan fod natur myfyrwyr sy'n astudio AU o fewn AB yn sylweddol wahanol i fyfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion, mae'n ofynnol i ni addasu'r model prifysgolion o bartneriaeth â myfyrwyr i ddiwallu disgwyliadau ein myfyrwyr. Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys cyfarfodydd misol rhwng y Prifathro a'r Prif Weithredwr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Myfyrwyr sy'n cadeirio Pwyllgorau Coleg a chyflwyno Llysgenhadon Arbenigol i Gefnogi Myfyrwyr; wrth ddefnyddio Technoleg Gynorthwyol y Colegau, datblygu clybiau cymdeithasol myfyrwyr a threfnu a chyflwyno gweithgareddau myfyrwyr, sy'n Derbyn Gofal neu'n Gadael Gofal, sy'n Ofalwyr

sy'n Oedolion Ifanc ac sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae tri llysgennad arbenigol wedi'u penodi i gefnogi myfyrwyr AU. Mae effaith y llysgenhadon AU hyn wedi bod yn arwyddocaol gan ganiatáu i'r Coleg symud ymlaen â llawer o fentrau newydd.

Mae Llywydd a Swyddog AU UyM yn aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr ac mae cynrychiolaeth AU UyM wedi'i breinio'n ffurfiol yng nghyfansoddiad UyM, sy'n nodi bod yn rhaid penodi Swyddog AU penodedig bob blwyddyn. Y flwyddyn academaidd hon, penodwyd y tri myfyriwr llysgennad i weithio gyda myfyrwyr AU i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a hefyd i weithio gyda staff i sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i gefnogi myfyrwyr AU. Gweithiodd y llysgenhadon mewn partneriaeth â myfyrwyr AU, cynrychiolwyr myfyrwyr AU, UyM, yr Uwch Swyddog Cyfranogiad ac Amrywiaeth Myfyrwyr, y Prifathro Cynorthwyol: AU, y Rheolwr AU a'r Arweinwyr AU ac roeddent yn:

- aelodau o Grŵp Gwella a Rheoli Ansawdd AU y Coleg a Grŵp Prosiect Adolygiad Gwella Ansawdd y Coleg ac yn adrodd iddynt am gynnydd a lle bo'n briodol yn nodi pa faterion a godwyd gan fyfyrwyr;
- hybu gwydnwch, hunaneffeithiolrwydd a llesiant ymhlith myfyrwyr AU trwy amrywiaeth o weithgareddau;
- cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr AU o ba fath o gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn y Coleg a gweithio gyda staff i sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i gefnogi myfyrwyr AU;
- cyfathrebu â myfyrwyr AU, gan gynnwys y rhai sy'n astudio'n rhan-amser, mewn ffordd sydd addas iddynt.
- datblygu astudiaethau achos a arweinir gan fyfyrwyr, neu gyfres o sylwebaethau neu bortreadau wrth baratoi at Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch sy'n dangos sut brofiad yw bod yn fyfyriwr AU a sut mae barn myfyrwyr yn cael ei hystyried mewn prosesau gwneud penderfyniadau;
- gweithio mewn partneriaeth â staff y Coleg i wneud argymhellion ar lwybrau cefnogaeth priodol ar gyfer myfyrwyr AU. Bydd hyn yn golygu cywain adborth gan fyfyrwyr AU am y math o gefnogaeth y byddent yn elwa ohoni a chynrychioli myfyrwyr wrth ddarparu adborth i staff.

Fel rhan o broses etholiadau UyM, mae myfyrwyr AU yn cael eu targedu a'u hannog i ymgeisio am rolau swyddog UyM. Mae UyM yn cydweithio'n agos â chronfa cynrychiolwyr myfyrwyr y coleg i godi ymwybyddiaeth o UyM a'i waith. Mae'r holl raglenni wedi'u cynrychioli gan fyfyrwyr a etholir gan eu cymheiriaid. Cefnogir rôl y cynrychiolwyr gan Wasanaethau Myfyrwyr a darperir digwyddiadau hyfforddiant bob blwyddyn. Er y darperir hyfforddiant ar y cyd i gynrychiolwyr, swyddogion a llywodraethwyr myfyriwr AB, mae'r hyfforddiant yn berthnasol i gynrychiolwyr myfyrwyr AU hefyd. At hynny, gan fod yr ymrwymiad o ran amser sydd ei angen i fod yn aelod o dîm Rheoli UyM yn sylweddol ac y bu heriau wrth sicrhau bod modd i'r cynrychiolwyr AU ar dîm Rheoli UyM gyfrannu'n llawn at UyM, gwnaethom gyflwyno tair swydd sabothol. Mae'r swyddogion sabothol a'r llysgenhadon AU arbenigol hyn yn cynrychioli a chyfathrebu â myfyrwyr mewn gwahanol weithgareddau gan gynnwys datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Mae tîm rheoli UyM yn cwrdd yn rheolaidd â'r Uwch Swyddog Cyfranogiad ac Amrywiaeth Myfyrwyr i drafod amcanion a chynnydd. Darperir cynefino ffurfiol i Swyddogion UyM gan y Prifathro Cynorthwyol AU, i drafod y strategaeth AU, y Siarter Myfyrwyr, bwrsariaethau myfyrwyr ac i nodi'r grwpiau a dangynrychiolir sydd angen cefnogaeth trwy'r cynllun ffioedd a mynediad. Mae'r Coleg yn gosod myfyrwyr wrth wraidd eu profiad dysgu ac yn gwerthfawrogi eu hadborth a'u cyfraniadau. Fel Sefydliad Addysg Bellach sy'n darparu AU, addysgir myfyrwyr mewn grwpiau bach ac maent yn elwa o'r perthnasoedd da y maent yn eu datblygu gyda staff yn y Coleg. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddarparu adborth yn rheolaidd trwy brosesau ffurfiol ac anffurfiol. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, mae nifer o heriau ynghlwm wrth fod yn ddarparwr bach cyrsiau AU gan gynnwys yr her o dderbyn adborth ffurfiol gan fyfyrwyr. At hynny, mae'r nifer bach o fyfyrwyr AU wedi'u gwasgaru ar draws y pum campws, gan gyfyngu ar gyfleoedd am weithgareddau a rennir. Mae tîm rheoli UyM yn cynrychioli'r corff myfyrwyr, gan roi llais i fyfyrwyr ar draws y sefydliad o lefel rhaglenni hyd at Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae myfyrwyr yn cael eu rhoi wrth wraidd y profiad dysgu, mae eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn rheolaidd a'u gwerthfawrogi'n fawr. Adolygwyd y Siarter Myfyrwyr gan dîm rheoli Undeb y Myfyrwyr yn 2019 a rhannwyd targedau'r cynllun ffioedd a mynediad gyda thîm rheoli UyM a'r myfyrwyr llysgennad AU.

Mae'r Uwch Swyddog Cyfranogiad ac Amrywiaeth Myfyrwyr wedi gwella rhyngweithio â'r corff myfyrwyr ac mae'r swydd benodedig hon yn darparu'r ffocws sy'n ofynnol i weithredu cyfranogiad myfyrwyr yn llawn ac i oruchwylio trosglwyddo gweithgareddau cyfranogiad o gael eu harwain gan staff i gael eu harwain gan fyfyrwyr. Mae'r swydd newydd hon wedi rhoi cyfranogiad ac ennyn diddordeb myfyrwyr wrth wraidd fframwaith cynllunio a chyflwyno strategol y Coleg ac adeiladu cymuned fyfyrwyr gref a chydnerth sy'n gweld egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a pharch yn cyfeirio'r holl weithgareddau cyfranogiad myfyrwyr. Mae gwybodaeth o'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ac arolygon mewnol yn darparu adborth defnyddiol ar foddhad myfyrwyr gyda'r Coleg ac UyM.

Mae'r holl ddarpariaeth yn y Coleg wedi'i dylunio i fod yn hygyrch i bawb ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae'r dulliau cyflwyno'n amrywio ac mae cyfleoedd ar gyfer y rhai y mae angen iddynt ffitio eu hastudiaethau i mewn o gwmpas eu cyfrifoldebau gwaith neu ofalu. Mae amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys cynnig bwrsariaethau a Chronfa Galedi AU, amserlennu i weddu i ymrwymadau teulu a magu plant, wedi'u dylunio i ddarparu ar gyfer y rhai y mae angen iddynt weithio a'r rhai sy'n dymuno gwirfoddoli ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Gwneir mynediad a chyfeiriadau i gyngor a chefnogaeth mor hawdd â phosib, gan gynnwys cyllid, gyrfaeodd, cwnsela, iechyd meddwl, menter a chefnogi sgiliau astudio. Yn draddodiadol mae AU mewn AB yn mwynhau meintiau grŵp llai a chyswllt anffurfiol ynghyd â ffurfiol â darlithwyr ac mae tiwtor personol yn darparu gofal a chefnogaeth fugeiliol unigol. Mae'r corff myfyrwyr yn ymwneud â chyfathrebu rheolaidd â'u Cydlynwyr AU sy'n cwrdd bob tymor i rannu barn myfyrwyr gyda'r Cydlynwyr AU eraill a staff perthnasol. Yn olaf, ymglymerir â chyfranogiad terfynol y corff myfyrwyr yn y cynllun ffioedd a mynediad pan gaiff y cynllun ffioedd a mynediad ei drafod yn y Bwrdd Llywodraethu.

### Adran 3 - Grwpiau a dangynrychiolir (Paragraffau arweiniad 106-116)

Bydd y Coleg yn cefnogi'r grwpiau canlynol y mae CCAUC yn eu hystyried i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Rydym yn nodi rhai o'r rhain yn ein mesurau cenedlaethol, y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach ac yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Byddwn yn cefnogi pob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol a restrir ym mesurau cenedlaethol CCAUC ac yn benodol:

- Myfyrwyr o bob oedran yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
- Myfyrwyr o bob oedran yng nghwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
- Myfyrwyr o bob oedran a fyddai'n elwa o astudio Addysg Uwch yn rhan-amser.
- Myfyrwyr o bob oedran yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Grwpiau Ymgynraedd yn Ehangach yr ydym yn eu cefnogi yw:

- grwpiau blaenoriaeth yn nau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), y dylent barhau i fod yn:
  - pobl ifanc hyd at 16 oed; ac
  - oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4.
- dysgwyr a gofalwyr sydd â phrofiad o ofal ym mhob grŵp oedran yn eu rhanbarth waeth beth fo MALIC 40.

Ar ben hynny, bydd grwpiau blaenoriaeth Ymgynraedd yn Ehangach newydd, sy'n byw yn nau gwintel isaf MALIC, yn rhanbarth eu Partneriaeth yn cynnwys:

- pobl ifanc ôl-16 mewn dysgu hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4;
- pobl ag anableddau;
- pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; a
- dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymreig.

**Adran 4 - Amcanion fel y maent yn berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hybu AU**  
(Paragraffau arweiniad 117-135)

**Adran 4.1 - Cyfle Cyfartal**

Amcan EO1	Amcan 1: Denu mwy o boblogaethau a dangynrychiolir i AU - myfyrwyr y mae eu domsil yng nghwintel isaf/dau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC neu sy'n astudio'n rhan-amser (EO1)
Amcan EO2	Amcan 2: Cynnal lefelau cadw a chwblhau, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr y mae eu domsil yn nau gwintel isaf MALIC (EO2)
<b>Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch</b>	
Amcan PHE1	Amcan 1: Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy wella mynediad a chyfranogiad yn y Gymraeg a gweithgareddau sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg (PHE1)
Amcan PHE2	Amcan 2: Gwellu ansawdd profiad dysgu ac addysgu myfyrwyr (PHE2)

## Awdurdodi'r cais am gynllun ffioedd a mynediad i CCAUC (gofynnol er mwyn cyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau am gynlluniau ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:


- i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru a'i fod yn elusen;
- ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;
- iii. yn cadarnhau yr ymgynghorwyd yn briodol â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a gyda darparwyr eraill pan gaiff addysg ei chyflwyno ar ei ran;
- iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ysgrifennu, a'i bod yn seiliedig ar wybodaeth all gael ei chadarnhau;
- v. yn cadarnhau:
  - a. ei fod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu wybodaeth/data arall y mae'n ei dal am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, ni waeth p'un a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai beidio;
- vi. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn deall yn well cymhwystra mewn perthynas â'r sefydliad a rheolaeth materion ariannol, y data a gyflwynwyd ar gynlluniau ffioedd a mynediad ac/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad;
- vii. deall bod yn rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'r cyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran ar gyfer CCAUC ac/neu asiant CCAUC;
- viii. deall y gall CCAUC gyflawni, neu drefnu i asiant gyflawni, adolygiad mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad, a bod yn rhaid i'w gorff llywodraethu gymryd unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodir gan CCAUC at y diben hwn i ystyriaeth;
- ix. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir gan neu ar ei ran, ni waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'i chymryd i ystyriaeth yn y cais hwn am gynllun ffioedd a mynediad;
- x. cadarnhau bod y sefydliad yn wynebu risg fach o fethu ar sail ariannol dros y tymor canolig i hir;

- xi. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un unigolyn/cwmni â'r unigolyn cwmni a baratôdd y cyfrifon;
- xii. cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch;
- xiii. deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y cynllun ffioedd a mynediad;
- xiv. cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm o ffioedd israddedig amser llawn i hybu cyfle cyfartal ac i hybu addysg uwch ac na fydd yn gostwng buddsoddiad mewn hybu cyfle cyfartal y bwriedir iddo gefnogi dim ond y rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- xv. cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol at y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach sy'n cydweddu â'i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymgynraedd yn Ehangach y cytunwyd arnynt;
- xvi. cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cefnogi myfyrwyr;
- xvii. cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gellir gwneud copi o'r cynllun ffioedd a mynediad yn hygyrch i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat;
- xviii. cadarnhau y bydd y sefydliad yn rhoi cyfeiriad clir i fyfyrwyr at brosesau cwynion CCAUC;
- xix. cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig;
- xx. ystyried sut y gall y buddsoddiad gefnogi orau y myfyrwyr yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan y pandemig Covid-19 os nad ydynt eisoes wedi'u nodi fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; ac yn
- xxi. rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei myfyrwyr a'i staff.

### **Cyflwyno'r cais am gynllun ffioedd a mynediad i CCAUC<sup>1</sup>**

<sup>1</sup> Mae'n rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad a gyhoeddir ar wefanau sefydliadau gynnwys dim ond y fersiynau hynny a gymeradwywyd gan CCAUC.



Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	9 Mai 2024
Llofnod wedi'u awdurdodi gan y Corff Llywodraethu:	 Rhobert Lewis, Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
Dyddiad:	Dydd Gwener 10 Mai 2024
<b>Cyflwyniad terfynol y cynllun ffioedd a mynediad ar ôl i CCAUC gadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion pellach i'w nodi (pan fo'n berthnasol)</b>	
Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu:	
Llofnod wedi'u awdurdodi gan y Corff Llywodraethu:	
Dyddiad:	